# Cadw llygad ar ddiogelwch

**Mae lifftiau blew amrant a chitiau arlliwio 'yn y cartref' wedi dod yn fwy poblogaidd, ond maent yn dod gydag ystyriaethau diogelwch difrifol. Dim ond gweithwyr salon proffesiynol ddylai gymhwyso'r cynhyrchion hyn a ni ddylid eu defnyddio yn y gartref.**



## Risgiau

### Adweithiau alergaidd posibl

- Mae'r citiau yma yn cynnwys cemegau cryf fel hydoddiannau pyrmio a lliwiau all achosi enynfa a, mewn rhai achosion, adweithiau alergaidd os ydynt yn cyffwrdd a'r croen neu lygaid.
- Gall adweithiau alergaidd arwain at gochni, cosi a chwyddo. Sicrhewch fod eich gweithiwr salon proffesiynol wedi helpu chi i berfformio prawf rhybudd alergedd, neu brawf sensitifrwydd croen os oes angen, cyn y driniaeth.
- Am resymau diogelwch, dim ond mewn cynhyrchion defnydd proffesiynol y caniateir y cynhwysion mewn arlliwiau a lifftiau blew amrant. Peidiwch â mentro defnyddio cynnyrch yn y cartref os yw at ddefnydd proffesiynol yn unig

### Niwed i'r llygaid

- Os mae cemegau yn cyffwrdd a'r llygad, gall achosi llosgiadau gornbilen, enynfa ddifrifol neu heintiau all arwain at niwed parhaol.
- Mae techneg cymhwyso wael cynyddu'r tebygolrwydd o achosi niwed i'r llygad. Ymddiried yn eich gweithiwr salon proffesiynol i gymhwyso'r cynhyrchion yma yn ddiogel ac i weld y canlyniad rydych eisiau.

### Gwendid a cholled amrannau

- Gall gorddefnyddio lifftiau blew amrant gwanhau amrannau naturiol dros amser, yn eu gwneud yn fwy tueddol o dorri a chwympo mas. Gall gor-brosesu hydoddiannau pyrmio niweidio strwythur amrannau

.

### Heintiau

- Heb safonau hylendid proffesiynol, mae risg heintiau fel llid yr amrant yn cynyddu, yn enwedig os ydych chi'n defnyddio taenwyr halogedig neu gynhyrchion sydd wedi dod i ben.

## Cyngor am ddefnydd diogel

- **Defnydd proffesiynol yn unig** Mae cynhwysion fel Asid Thioglycolic, a ddarganfyddir mewn nifer o gynhyrchion lifftiau blew amrant, wedi'i rheoleiddio'n llym a ddylid ond eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol.
- **Profi rhybudd alergedd** Am gynhyrchion gyda PPD (cynhwysyn lliwio cyffredin), a phrawf clwt yn hanfodol i osgoi adweithiau alergedd.
- **Osgoi gorddefnydd** Gall defnydd dro ar ôl tro gwanhau amrannau. Ymgynghorwch a gweithiwr proffesiynol am gyfnodau diogel rhwng triniaethau.
- **Ystyried dewisiadau eraill** Gall dewisiadau amgen mwy diogel cynnwys masgara neu estyniadau blew amrant wedi'i gymhwyso yn y salon gan dechnegwr proffesiynol.

ctsi Chartered Trading Standards Institute

Am fwy o wybodaeth, ewch i:
**www.tradingstandards.uk/cosmetics**